# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 21 Hydref 2013** |
| Amser: | **14:50 – 16:10** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/senedd-tv.htm

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Suzy Davies**<br>**Mick Antoniw (yn lle Julie James)**<br>**Eluned Parrott**<br>**Simon Thomas (yn lle David Melding)** |
| Tystion: | **Alun Davies, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**<br>**Julia Hill, Llywodraeth Cymru**<br>**Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Owain Roberts (Ymchwilydd)**<br>**Siân Richards (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan David Melding AC. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, enwebodd Eluned Parrott AC Simon Thomas AC i fod yn Gadeirydd dros dro.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James AC hefyd. Dirprwyodd Mick Antoniw AC ar ei rhan.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

2.1 **CLA316 Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013**

2.2 **CLA317 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2013**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 **CLA319 Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru)**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chyflwynwyd adroddiad i'r Cynulliad.

## 4 Trafodaeth ynghylch y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y Cod ac roedd yn fodlon y'i gwnaed yn unol â'r pwerau a'r gweithdrefnau cywir.

## 5 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog cyn y Ddadl yng Nghyfnod 1.

## 6 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat.